Rhif: **WG12843**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Addasiadau Rhesymol i gymwysterau cyffredinol

Arfer pŵer rheoleiddiol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010


Dyddiad cyhoeddi: **11 Gorffennaf 2011**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **03 Hydref 2011**

# Addasiadau Rhesymol i gymwysterau cyffredinol

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod cymwysterau cyffredinol, er enghraifft TGAU a Lefel A, mor hygyrch â phosibl i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar gyrff cymwysterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Mae'n bwysig ystyried tegwch i ymgeiswyr, ac i sicrhau ar yr un pryd bod y cymhwyster yn parhau i fod yn ddilys.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru (y rheoleiddwyr cymwysterau yng Nghymru) i bennu lle **na** ddylid gwneud addasiad rhesymol.

**Sut i ymateb**

Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael i'w llenwi yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod drwy'r e-bost neu drwy'r post erbyn **03 Hydref 2011**.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Nia Jones
Yr Is-adran Cymwysterau a Dysgu
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Bedwas
CF83 8WT

e-bost: info.quals@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 01443 663725

© Hawlfraint y Goron 2011

## Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Beth yw'r prif faterion dan sylw? | 1 |
| Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd? | 2 |
| Pam ydym ni'n cynnig newid? | 3 |
| Amseru | 4 |

Atodiadau

1. Ein cynigion
    - Esemptiadau
    - Marciau pasio a ffiniau graddau
    - Darllenwyr
    - Ysgrifenyddion a thechnolegau adnabod llais
    - Iaith Arwyddion Prydain
    - Cynorthwywyr ymarferol
    - Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
2. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad
3. Termau
4. Deddf Cydraddoldeb 2010 (Adran 96)
5. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Rheoleiddiwr Cyrff Cymwysterau Cyffredinol a Chymwysterau Perthnasol) (Cymru) 2010
6. Cyhoeddiadau perthnasol

# Cyflwyniad

Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn ymdrin â sut y mae Llywodraeth Cymru’n bwriadu cyflawni ei phŵer newydd dan adran 6 y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (‘y Ddeddf’). Mae’r pŵer hwn yn ymwneud ag addasiad rhesymol o gymwysterau cyffredinol ar gyfer ymgeiswyr anabl ac mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu’r achosion lle na ddylid gwneud addasiadau rhesymol.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi ddweud wrthym beth rydych chi’n ei feddwl o’n cynigion ar gyfer cyflawni’r pŵer hwn.

Dim ond i gymwysterau cyffredinol megis TGAU a Lefel A y mae ein pŵer newydd, dan adran 96 y Ddeddf, yn berthnasol. Mae cymwysterau galwedigaethol yn dod dan adran 53 y Ddeddf, ac nid ydynt yn cael sylw yn yr ymgynghoriad hwn.

Daeth adran 96 y Ddeddf i rym ar 01 Hydref 2010. Mae’r adran hon yn berthnasol i Gymru, Lloegr a’r Alban.

Ceir rhestr o’r cymwysterau cyffredinol yng Nghymru y mae adran 96 y Ddeddf yn eu cwmpasu yn Atodiad 5.

**Beth yw’r prif faterion dan sylw?**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi’n ddyletswydd ar gyflogwyr a darparwyr gwasanaeth i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl.

Mae’r Ddeddf yn gosod y dyletswyddau canlynol ar gyrff dyfarnu:

- y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl
- y ddyletswydd i beidio â gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu nac erlid pobl anabl yn y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol.

Nid yw hon yn ddyletswydd newydd. Ers sawl blwyddyn, bu cyrff dyfarnu yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Gellir crynhoi addasiadau rhesymol o’r fath, yn fras, fel a ganlyn:

- *cyflwyno* – e.e. darparu papurau Braille neu bapurau wedi’u haddasu;
- *amserlen* – e.e. caniatáu amser ychwanegol;
- *ymateb* – e.e. caniatáu i ymgeiswyr adrodd eu hatebion neu ddefnyddio iaith arwyddion.

Mae addasiad rhesymol o gymwysterau ar gyfer ymgeiswyr anabl yn rhan o’r hyn a elwir yn gyffredinol yn *‘Drefniadau Mynediad’.* Mae’r rhain, fodd bynnag, yn cynnwys ystod ehangach o fesurau megis caniatáu i ymgeiswyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ddefnyddio geiriaduron dwyieithog.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cydnabod na fydd addasiadau rhesymol bob amser yn bosibl yng nghyswllt cymwysterau. Mae hyn oherwydd bod cymwysterau wedi'u cynllunio i asesu'r hyn y mae ymgeisydd yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud, a dim ond at ryw bwynt penodol y gellir addasu cymhwyster heb i werth y cymhwyster hwnnw gael ei danseilio.

Gallwn wahaniaethu rhwng y sgiliau sy'n cael eu hasesu (e.e. y gallu i ddadansoddi data hanesyddol mewn asesiad hanes) a'r sgiliau y mae eu hangen i gyrchu'r asesiad (e.e. y gallu i droi tudalennau'r papur arholiad hanes.

Mae'n bosibl y gellid gwneud addasiad rhesymol i'r gofynion o ran cyrchu asesiad heb achosi unrhyw broblemau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw amcanion yr asesiad – h.y. y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n cael eu hasesu gan y cymhwyster – yn cael eu bygwth gan unrhyw addasiad rhesymol.

**Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?**

Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i gymwysterau fod mor hygyrch ag y bo modd - er mwyn rhoi'r cyfleoedd tecaf posibl i bob dysgwr ddangos yr hyn y mae yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn gweithio gyda'r rheoleiddwyr cymwysterau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, a gyda chyrff dyfarnu, i geisio sicrhau bod pob dysgwr yn cael y canlyniadau y mae'n eu haeddu, a bod gwerth i'r cymwysterau y mae yn eu hennill.

Mae'r AdAS yn gwneud llawer iawn o wahanol bethau er mwyn helpu i gyflawni'r nodau hyn. Dyma rai enghreifftiau:

**Mynediad teg drwy gynllunio**

Arweiniodd AdAS y gwaith o gynhyrchu '*Mynediad teg drwy gynllunio: canllawiau i reoleiddwyr cymwysterau a chyrff dyfarnu ar gynllunio cymwysterau cynhwysol*' y gellir ei weld yma.

**Grŵp Cynghori ar Fynediad i Asesiadau a Chymwysterau**

Mae AdAS yn rheoli'r *Grŵp Cynghori ar Fynediad i Asesiadau a Chymwysterau* ar ran y rheoleiddwyr cymwysterau. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr grwpiau anabledd a chyrff dyfarnu, ac mae'n canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar ddysgwyr anabl sy'n sefyll cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol.

**Canllawiau'r Cyd Gyngor Cymwysterau**

Bob blwyddyn, bydd y Cyd Gyngor Cymwysterau yn cyhoeddi *Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Consideration* (Saesneg yn unig). Mae'r ddogfen hon yn ymdrin ag addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl a threfniadau mynediad ac ystyriaethau arbennig ar gyfer grwpiau eraill.

**Arweiniad ynglŷn ag esemptiadau**

Pan na fydd unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol, gall ymgeiswyr anabl gael eu heithrio o un neu ragor o gydrannau cymhwyster. Mae'r AdAS, ynghyd ag Ofqual yn Lloegr a CCEA yng Ngogledd Iwerddon, wedi datblygu arweiniad ynglŷn ag esemptiadau o fewn cymwysterau TGAU, TAG a Lefel Mynediad (Saesneg yn unig). Mae'r AdAS hefyd wedi cynhyrchu arweiniad ynglŷn ag esemptiadau yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC).

**Meini prawf cymhwyster**

Mae meini prawf cymhwyster yn dynodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni pan fydd corff dyfarnu yn datblygu cymhwyster. Cyhoeddir meini prawf ar gyfer TGAU a TAG (Lefel A) gan Ofqual ar ran y rheoleiddwyr yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, a gellir eu gweld ar wefan Ofqual.

Os yw meini prawf wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, ystyriwyd sut i ddelio ag addasiadau rhesymol fel rhan o'r broses hon. Ein bwriad yw sicrhau, pan fydd meini prawf cymhwyster yn cael eu hadolygu yn y dyfodol, eu bod yn cael eu hasesu yng nghyswllt hygyrchedd a chynhwysiant.

**Trefniadau Mynediad Ar-lein**

Mae Trefniadau Mynediad Ar-lein (Saesneg yn unig) yn system ar y we a ddefnyddir gan ganolfannau i wneud cais am drefniadau mynediad, gan gynnwys addasiadau rhesymol. Mae'r system yn ymateb yn sydyn i geisiadau syml, ac mae'n sicrhau dull gweithredu cyffredin ar draws y cyrff dyfarnu. Mae cyrff dyfarnu unigol yn ymdrin ag achosion mwy dyrys.

**Pam ydym ni'n cynnig newid?**

**Deddf Cydraddoldeb 2010: pŵer newydd i reoleiddwyr cymwysterau**

Dan adran 96 Deddf Cydraddoldeb 2010, mae Gweinidogion Cymru wedi cael pŵer newydd yng nghyswllt cymwysterau cyffredinol.

Mae adran 96 (7) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r achosion lle na ddylid gwneud addasiadau rhesymol.

Wrth bennu manylebau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru feddwl am yr angen i:

(a) leihau lefel yr anfantais y mae ymgeiswyr anabl yn ei hwynebu;

(b) sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau, a dealltwriaeth;

(c) cynnal ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster.

(Adran 96 (8))

Ceir union eiriad Adran 96 (7) ac (8) yn Atodiad 4.

**Yr hyn nad yw adran 96 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymdrin ag ef**

Mae'n bwysig nodi nad yw pŵer rheoleiddio newydd Gweinidogion Cymru yn disodli dyletswydd cyrff dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn pennu unrhyw fanylebau, mae gan gyrff dyfarnu ddyletswydd gyfreithiol o hyd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl.

Nid yw adran 96 yn rhoi pwerau apelio i Weinidogion Cymru. Pan fydd corff dyfarnu yn gwrthod cais am addasiad rhesymol, gellir anfon cwyn yn uniongyrchol at y corff dyfarnu. Gellir mynd â'r gŵyn i'r llys hefyd, dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

Nid yw adran 96 yn gosod cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i fonitro na gorfodi cyfraith cydraddoldeb, ac ni all Gweinidogion Cymru ychwaith wneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn a allai fod, neu a allai beidio â bod, yn wahaniaethu. Mater i'r system farnwrol yw hwn, a'r Equality and Human Rights Commission (EHRC) yw'r corff sy'n gyfrifol am hyrwyddo, monitro a gorfodi deddfwriaeth cydraddoldeb.

**Yr hyn yr ydym am ei wneud**

Dan y pŵer rheoleiddiol a ddyfernir yn adran 96 (7) ac (8) Deddf Cydraddoldeb 2010, yr ydym am bennu manylebau mewn achosion pan gredwn fod tystiolaeth a/neu gyfiawnhad na ddylid gwneud addasiadau rhesymol.

Ni fydd hon yn rhestr oll-gynhwysol, felly bydd cyrff dyfarnu yn dal i allu ystyried ceisiadau unigolion am addasiadau rhesymol.

Yr ydym yn ceisio eich barn ynglŷn â'n cynigion (yn Atodiad 1), yn unol ag adran 96 (9) y Ddeddf, sy'n gofyn bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r bobl hynny y credant sy'n briodol cyn cyhoeddi manylebau.

**Amseru**

Mae angen amser ar gyrff dyfarnu, canolfannau a dysgwyr i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau. Mae'r Cyd Gyngor Cymwysterau wedi nodi'r trefniadau cyfredol yn *Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Consideration* (Saesneg yn unig). Y rhain fydd yn parhau mewn grym hyd nes y gweithredir unrhyw fanylebau a bennir gan Weinidogion Cymru.

Os nad yw ein manylebau yn newid y trefniadau cyfredol mewn unrhyw ffordd, yr ydym yn cynnig bod y rhain yn cael eu gweithredu'n syth unwaith y bydd y manylebau terfynol yn cael eu cyhoeddi.

Os yw ein manylebau yn newid trefniadau cyfredol, byddwn yn cyhoeddi'r rhain o leiaf un flwyddyn cyn y flwyddyn academaidd pan ddaw'r newidiadau hyn i rym. Bydd hyn yn rhoi amser i gyrff dyfarnu, canolfannau a dysgwyr baratoi a chynllunio ar gyfer y newidiadau.